**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/LG/0569/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Caerdydd
CF99 1NA

25 Gorffennaf 2014

Annwyl Cadeirydd,

**Masnachu Pobl yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin yn gofyn am ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Fasnachu Pobl.
Isod rwy'n ymateb ymhellach i'r materion a gododd o sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor.

**1. Ymwybyddiaeth a thystiolaeth**

Mae Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Cymru eisoes yn gweithio gyda'r pedwar Heddlu yng Nghymru ynghyd â'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu perthnasol.

Ymhlith yr esiamplau o'r cydweithio agos hwn mae'r gwaith gyda'r Heddlu i ddatblygu cwrs hyfforddi tri diwrnod penodol i Uwch Swyddogion Ymchwilio er mwyn rhoi'r sgiliau a'r hyder iddynt ymchwilio i achosion cymhleth o gaethwasiaeth. Hefyd, mae Pwyntiau Cyswllt Unigol yr Heddlu ym mhob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru wedi'u cynnwys ar y fforymau rhanbarthol lle gallant weithio ar y cyd i sefydlu protocolau gwybodaeth a rhannu arferion da yn sgil gweithgareddau ymgyrchoedd diweddar.

Roeddwn yn siomedig iawn felly gyda'r sylw a wnaed gan y Comisiynydd ar gyfer Dyfed Powys nad oedd wedi clywed am y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth. Er nad oedd wedi gallu cyfarfod â'r Cydgysylltydd ar y pryd, gallaf gadarnhau i rôl y Cydgysylltydd gael ei thrafod yn sawl un o'm cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a gofynnwyd am eu cefnogaeth i weithio gyda'r Cydgysylltydd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth yn eu hardaloedd. Rwy'n falch y bu

modd i Mr Salmon drefnu cwrdd â Steve Chapman ym mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod cyswllt helaeth wedi bod rhwng y Cydgysylltydd ac uwch swyddogion Heddlu Dyfed Powys cyn hynny, gan gynnwys cyflwyniadau a hyfforddiant yn ogystal â chymorth uniongyrchol wrth sefydlu fforymau Atal Caethwasiaeth Dyfed Powys.

O ran yr ymgysylltiad ag Awdurdodau Lleol, gwyddoch fod Grŵp Arweinyddiaeth Atal Caethwasiaeth Cymru yn cynnwys Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych sydd hefyd yn arwain ar atal caethwasiaeth ar y Grŵp Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus. Hefyd, mae un o Gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn aelod o'r Grŵp. Maent yn rhagweithiol o ran datblygu'r agenda atal caethwasiaeth ac ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol ar lefel Prif Weithredwyr a Chabinet. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn ymgysylltu â'r fforymau atal caethwasiaeth rhanbarthol sydd wedi'u sefydlu ledled Cymru ac maent wedi'u cynrychioli ar y fforymau hyn yn ogystal.

Yn ei gyfarfod diwethaf ym mis Gorffennaf, cytunodd Bwrdd Cyflawni Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed i ymchwilio i ffyrdd y gallent ddatblygu ymateb Awdurdodau Lleol er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru, a bydd y Cydgysylltydd yn bresennol yn eu cyfarfod nesaf ym mis Medi i drafod hyn ymhellach.

Nodaf eich awgrym y dylai pob Awdurdod Lleol bennu swyddog arweiniol cyfrifol o ran atal caethwasiaeth ar lefel Cabinet a byddaf yn cadw hyn mewn cof wrth inni ddatblygu'r agenda ymhellach.

Rydym eisoes wedi ymgysylltu ag addysg ac iechyd gan ddarparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth strwythuredig i staff perthnasol. Ar gyfer y sector iechyd, mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer staff proffesiynol rheng flaen sy'n cynnwys bydwragedd cymunedol, ymwelwyr iechyd a staff sy'n gweithio mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i ymchwilio i ffyrdd o ddarparu'r hyfforddiant hwn i fyfyrwyr meddygaeth a nyrsio fel rhan o'u cwrs blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd. O ran addysg, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cael ei gyflwyno i athrawon sy'n gyfrifol am ddiogelu, er mwyn eu galluogi i raeadru'r hyfforddiant i aelodau eraill o'r staff ac i lywodraethwyr yr ysgol. Hefyd, caiff hyfforddiant ei ddarparu i fyfyrwyr mewn ysgolion drwy gyfrwng Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yr Heddlu.

Mae adeiladu'r cysylltiadau amlasiantaethol proffesiynol hyn ledled Cymru yn cymryd amser, fodd bynnag, rydym wedi sicrhau bod hyn yn flaenoriaeth a chredaf i hyn gael ei gyflawni'n gyflym ac yn effeithiol. Mae'r fframwaith rydym bellach wedi'i sefydlu, er ei fod yn parhau i ddatblygu, wedi ein rhoi mewn sefyllfa gref at y dyfodol. Mae hyn wedi'i brofi yn yr achosion 'proffil uchel' diweddar y mae ein partneriaid yn ymateb iddynt a'r sylw sy'n dod gan weddill y Deyrnas Unedig i ni rannu ein harferion da.

**Ymgyrch gyhoeddusrwydd**

Caiff effeithiolrwydd ymgyrch gyhoeddusrwydd atal caethwasiaeth Llywodraeth Cymru ei fonitro drwy goladu nifer y digwyddiadau a gofnodir gan yr Heddlu a phartneriaid eraill, nifer yr ymgyrchoedd a'r troseddwyr sy'n ymddangos gerbron eu gwell a'r atgyfeiriadau i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Cofnododd yr Heddlu gynnydd yn nifer yr adroddiadau cudd-wybodaeth yn ystod ac yn dilyn yr ymgyrch a chofnodwyd 1,684 o ymweliadau â thudalen gwefan Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru yn ystod mis Chwefror pan gynhaliwyd yr ymgyrch.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cydnabod llwyddiant ein hymgyrch gyhoeddusrwydd atal caethwasiaeth, sef y gyntaf i'w chynnal gan unrhyw un o Lywodraethau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth gynhwysfawr i ddechrau ddiwedd mis Gorffennaf. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys hysbyseb deledu i'w darlledu ledled y Deyrnas Unedig gan gynnwys Cymru.

Gan mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yw darparu cefnogaeth gychwynnol i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ac yng ngoleuni eu hymgyrch gynhwysfawr eu hunain, Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddylai fod yn ymateb i unrhyw gynnydd posibl mewn atgyfeiriadau a allai ddeillio o weithgaredd o'r fath. Mae'r Cydgysylltydd mewn cyswllt rheolaidd â swyddogion y Swyddfa Gartref a bydd yn bwydo gwybodaeth yn ôl am unrhyw effaith amlwg ar yr Ymatebwyr Cyntaf yng Nghymru.

**Sylfaen dystiolaeth**

Er fy mod yn cytuno'n llwyr bod sylfaen dystiolaeth gryfach yn hanfodol er mwyn targedu adnoddau i'r mannau hynny y mae eu hangen fwyaf, nid yw hyn yn fater sy'n benodol i Gymru. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cartref ei hun gydnabod y mater hwn yn y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Gaethwasiaeth yng nghyfarfod mis Mai lle roeddwn yn bresennol. Rhaid inni fod yn realistig o ran ein disgwyliadau ynghylch sicrhau data cadarn yn y maes hwn gan fod caethwasiaeth yn drosedd lle ceir diffyg o ran nodi achosion.

Fodd bynnag, fel yr eglurodd fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rwyf wedi sicrhau bod y gwaith o wella'r sylfaen dystiolaeth ynghylch hyd a lled masnachu caethwasiaeth yng Nghymru yn un o amcanion strategol y Grŵp Arweinyddiaeth ar Atal Caethwasiaeth.

Mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn gweithio gyda phartneriaid i gynhyrchu setiau data cynradd ac eilaidd i wella'r wybodaeth am lefel caethwasiaeth yng Nghymru. Caiff data eilaidd y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ei gasglu bellach gan Bawso a Llwybrau Newydd. Mae proses ar droed i gasglu'r data hwn gan Awdurdodau Lleol a sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf eraill. Enghraifft o'r data eilaidd yw'r ffaith bod Llwybrau Newydd, yn ystod tri mis cyntaf 2014, yn cofnodi eu bod wedi delio ag 11 o fenywod a gafodd eu masnachu ond nad oeddynt am gyfeirio'u hunain yn wirfoddol i broses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Rydym hefyd yn ystyried ymgorffori data ar wybodaeth/cudd-wybodaeth a nifer y bobl a gaiff eu hyfforddi drwy ein cyrsiau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

Byddaf yn cyhoeddi'r data eilaidd sydd ar gael ar gyfer 2014-15 yn Adroddiad Blynyddol y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth ar gyfer 2014. Hyderaf y bydd hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth well o gaethwasiaeth yng Nghymru ac yn gymorth i godi ymwybyddiaeth.

## 2. Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Cymru

Mae'r llwyddiannau hyd yma yn y maes hwn wedi'u cyflawni gyda chyllideb gymharol gyfyngedig. Nid wyf yn cytuno ag awgrym Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai hyn fod wedi atal cynnydd. Yn wir, byddwn yn cyfeirio at y llwyddiannau hyn fel tystiolaeth nad oes angen cyllideb fawr bob tro i wneud cynnydd gwirioneddol. Ymrwymiad a brwdfrydedd ein partneriaid wrth ymgysylltu â'r agenda hon a'r arweinyddiaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yw sail y llwyddiannau hyn.

Rwy'n ymrwymedig i'r gwaith parhaus sydd ei angen i fynd i'r afael â chaethwasiaeth a chefnogi dioddefwyr yng Nghymru. Pan fydd hi'n gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru, fy mwriad yw cadw'r adnoddau presennol sy'n cynnwys cyllid ar gyfer y Cydgysylltydd.

Er mwyn cefnogi'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth rwyf wedi ariannu penodiad Swyddog Atal Caethwasiaeth a, thrwy gyfrwng y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, rôl 'Fraenaru' Cydgysylltydd Rhanbarthol Atal Caethwasiaeth yn y gogledd. Penodwyd y swyddogion hyn ym mis Tachwedd 2013.

Ers mis Ebrill, rwyf wedi gwneud cyfraniad o £50,000 y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf tuag at gyllid cyffredinol Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod codi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â chaethwasiaeth hefyd yn rhan o'u rôl. Lleolir y Cydgysylltwyr hyn mewn Awdurdodau Lleol a rhan o'u rôl fydd adrodd ar unrhyw setiau data eilaidd a fydd yn gymorth wrth adeiladu'r sylfaen dystiolaeth.

### Bil Caethwasiaeth Fodern Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Mae'r Swyddfa Gartref yn ymwybodol o rôl arloesol Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth Llywodraeth Cymru a'r angen i sefydlu protocol gweithio gyda'i Chomisiynydd Atal Caethwasiaeth ei hun pan sefydlir y rôl honno. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y daw'r Bil yn statud cyn mis Ebrill 2015 ac ni ragwelir y bydd y Comisiynydd yn ei swydd hyd nes hydref 2015.

Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi ysgrifennu ataf ynghylch darpariaethau'r Bil Caethwasiaeth Fodern ac, yn benodol, mae'n cydnabod yr angen i'r Comisiynydd Atal Caethwasiaeth sicrhau gweithio effeithiol gyda Llywodraeth Cymru. Bydd ein cyswllt parhaus â'r Swyddfa Gartref, felly, yn parhau. Bydd cytundeb ar brotocol gweithio yn flaenoriaeth dros yr ychydig fisoedd nesaf. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynnydd ar y mater hwn.

Rydym yn trafod â'n hasiantaethau rhyngwladol er mwyn mabwysiadu arferion gorau. Yn ddiweddar, rwyf wedi cwrdd gydag UNICEF i drafod cydweithio â nhw i fynd i'r afael â chamfanteisio ar blant. Rwy'n bwriadu teithio i Frwsel yn y dyfodol i gwrdd â Chomisiynydd a Chydlynydd Masnachu Pobl yr Undeb Ewropeaidd er mwyn ymchwilio i fentrau ar y cyd ac unrhyw gyfleoedd ariannu. Bydd ein gwaith

ymgysylltu ag asiantaethau rhyngwladol yn parhau er gwaethaf creu swydd Comisiynydd Atal Caethwasiaeth y Deyrnas Unedig.

Byddaf hefyd yn ymchwilio i unrhyw gyfleoedd ariannu a allai godi yn sgil y Bil Caethwasiaeth Fodern. Fodd bynnag, gan mai dyddiau cynnar yw hi i'r ddeddfwriaeth hon, rwyf yn aros am gyhoeddiadau pellach gan y Swyddfa Gartref.

Ar hyn o bryd, rwyf wedi fy modloni nad oes angen gwneud rôl y Cydgysylltwyr Atal Caethwasiaeth yn un statudol.

**Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM)**

Mae Tîm Caethwasiaeth Fodern y Swyddfa Gartref yn adolygu'r broses hon ar hyn o bryd a bydd yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Ysgrifennydd Cartref ym mis Hydref. Mae Llywodraethau Datganoledig a sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf yn rhan o'r broses ymgynghorol yn ystod yr adolygiad sy'n ystyried:

- dulliau adnabod dioddefwyr;
- mynediad at wasanaethau cymorth a ddarperir gan y Swyddfa Gartref;
- data;
- gwneud penderfyniadau – gan yr Awdurdodau Cymwys, sef Canolfan Masnachu Pobl y Deyrnas Unedig a Fisas a Mewnfudo'r Swyddfa Gartref;
- y lefel o gymorth a ddarperir ar hyn o bryd; a
- llywodraethiant proses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

Ymwelodd Tîm Adolygu'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol â Chymru ar 9 a 10 Gorffennaf i gwrdd â sefydliadau partner o sefydliadau datganoledig a heb eu datganoli a chyrff anllywodraethol yng Nghymru er mwyn ystyried eu barn, yn arbennig y pryderon ynghylch atgyfeiriadau gwirfoddol a niferoedd isel yr achosion sy'n cael eu nodi. Hefyd, un o ddarpariaethau pwysig y Bil Caethwasiaeth Fodern yw ei gwneud yn ddyletswydd statudol i gyrff cyhoeddus gofnodi goroeswyr caethwasiaeth. Bydd hyn, heb os, yn effeithio ar nifer yr atgyfeiriadau.

Mae'r Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn aelod o Grŵp Adolygu Gorolwg y Swyddfa Gartref o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Mae diben y grŵp hwn yn cael ei adolygu gan Dîm Adolygu'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ac mae ei rôl i'w diffinio'n glir ar gyfer gweithredu llywodraethiant proses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn y dyfodol.

Mae hyfforddiant i'n sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf ar broses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol wedi'i gynnwys yn y cwrs undydd ar Atal Caethwasiaeth ar gyfer Staff Proffesiynol/Ymarferwyr a gaiff ei gyflwyno ledled Cymru. Mae hyn yn gam arloesol i Gymru ac i'r Deyrnas Unedig. O'r hyfforddiant ymwybyddiaeth hwn rhagwelir y caiff mwy o ddioddefwyr eu hadnabod a bydd gan ein Hymatebwyr Cyntaf y sgiliau a'r hyder i wneud atgyfeiriadau. Byddaf yn hapus i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y rhaglen hyfforddiant yn adroddiad y Cydgysylltydd a gaiff ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

## 3. Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Llywodraeth Cymru

Er nad mynd i'r afael â chaethwasiaeth yn benodol yw nod y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), byddai rhai agweddau ar gaethwasiaeth yn dod o dan y Bil:

Mae Trais Rhywiol o dan y Bil yn cynnwys camfanteisio rhywiol a ddiffinnir drwy gyfeiriad at droseddau o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 a byddai hyn yn cynnwys masnachu pobl ar gyfer camfanteisio rhywiol.

Caiff gwaith codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i fynd i'r afael â chaethwasiaeth ei gyflwyno y tu allan i'r Bil hwn yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Yn amlwg, bwriad y darpariaethau yn y Bil Caethwasiaeth Fodern yw gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gwaith o fynd i'r afael â chaethwasiaeth ac, yr un mor bwysig, sicrhau cymorth i ddioddefwyr. Bydd y Bil yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

## 4. Cymorth i ddioddefwyr

Er mwyn sicrhau cysondeb daearyddol, mae fforymau Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol bellach wedi'u sefydlu sy'n rhoi sylw cynhwysfawr i'r materion hyn ledled Cymru. Mae'r Fforymau Rhanbarthol wedi'u sefydlu i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i faterion lleol. Bellach maent yn gweithredu yn y rhanbarthau canlynol

Caerdydd<br>
Dyfed Powys<br>
Gwent<br>
Bae'r Gorllewin<br>
Y Gogledd

Mae'r fforymau hyn yn rhai amlasiantaethol ac maent yn meithrin dulliau rhannu gwybodaeth gyda'r sefydliadau sy'n aelodau, gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae rhai o lwyddiannau'r Fforymau Rhanbarthol hyd yn hyn yn cynnwys datblygu Llwybr Gofal y Goroeswr, cyflwyno Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARACs), a'r Prosiectau Gweithwyr Rhyw sy'n cael eu sefydlu yng Nghaerdydd ac Abertawe.

Rwyf hefyd wedi sefydlu Grŵp Cyflawni Gweithredol Atal Caethwasiaeth Cymru sy'n tynnu Cadeiryddion y Fforymau Rhanbarthol ynghyd i gydlynu gweithgareddau a sicrhau cysondeb ledled Cymru.

**Adeiladau**

Cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yw darparu llety diogel i oroeswyr y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Mae'r gwaith wedi'i gontractio i Fyddin yr Iachawdwriaeth yng Nghymru a Lloegr gyda'r gwaith o ddarparu llety i oroeswyr benywaidd yng Nghymru wedi'i is-gontractio i Bawso.

Mae'r Swyddfa Gartref yn adolygu'r trefniadau llety i oroeswyr caethwasiaeth ym mhroses y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a disgwylir eu hadroddiad yn ddiweddarach eleni. Byddaf yn aros i weld canlyniad Adolygiad y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol cyn ystyried a oes achos i'w wneud i'r Swyddfa Gartref ynghylch yr angen am ddarpariaeth ar wahân i oroeswyr gwrywaidd yng Nghymru. Er fy mod yn cydnabod bod cyllid wedi'i ddarparu i brosiect Diogel yn y gogledd, ni ddylid ystyried hyn fel cynsail ar gyfer penderfyniadau cyllido yn y dyfodol.

**Plant a Phobl Ifanc**

Mae darpariaethau'r Bil Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys creu Eiriolwyr Masnachu Plant yng Nghymru a Lloegr, cynllun tebyg i'r Cynllun Gwarcheidwaid sydd ar waith yn yr Alban ar hyn o bryd.

Bydd y Swyddfa Gartref yn cyflwyno cynllun peilot o'r cynllun eiriolwyr plant sydd i gychwyn yn ystod haf 2014 gan gyflwyno adroddiad ganol 2015. Caiff yr hyn a ddysgir o'r cynllun peilot ei ddefnyddio pan gyflwynir y cynllun a chaiff ei raeadru ledled Cymru a Lloegr.

Er mwyn mynd i'r afael â chamfanteisio ar blant yng Nghymru mae Grŵp Arweinyddiaeth Atal Caethwasiaeth Cymru wedi cyflwyno Amcan Strategol newydd yn y Cynllun Cyflawni i fynd i'r afael â'r mater hwn. Caiff yr amcan hwn ei arwain gan ein partner, Barnardos Cymru.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business